
# CANIATÂD YM MAES GOFAL IECHYD




GWYBODAETH I BLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# EICH HAWLIAU



**Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cyflwyno rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc ym mhob man yn y byd.**



## MAE'R RHAIN YN CYNNWYS HAWL I'R CANLYNOL:

- Gofal iechyd o ansawdd da.
- Dweud beth rydych chi'n meddwl ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi, ac y dylai oedolion wrando ar beth sydd gennych chi i'w ddweud.
- Derbyn gwybodaeth y gallwch ei ddeall dim ond os yw hi'n ddiogel i chi dderbyn y wybodaeth.
- Eich preifatrwydd.









## I BWY MAE'R DAFLEN YMA AC AM BETH MAE'N SÔN?

**Mae'r daflen yma ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru. Gallai fod yn ddefnyddiol i'ch rhiant neu eich gofalwr hefyd.**

Mae'n sôn am eich gofal iechyd a'ch hawl i fod yn rhan o benderfyniadau am eich iechyd, eich gofal iechyd neu driniaeth sy'n cael ei rhoi i chi.

## BETH YW CANIATÂD?

Os ydych chi'n rhoi caniatâd, **rydych chi'n cytuno bod rhywbeth yn gallu digwydd.** Ym maes gofal iechyd mae'n golygu bod **rhaid i chi ddweud ie** wrth y nyrs, y deintydd, neu unrhyw un arall sy'n gofalu am eich iechyd, cyn iddyn nhw eich archwilio chi neu roi triniaeth i chi. Dylech chi **ystyried yn ofalus** ydych chi eisiau rhoi caniatâd ar gyfer rhywbeth.









## ALLA I ROI CANIATÂD?

**Os ydych chi'n 16 neu 17, cymerir eich bod chi'n gallu rhoi caniatâd** ar gyfer archwiliad neu driniaeth gan feddyg, nyrs neu ddeintydd ar ôl i hynny gael ei esbonio i chi. Os byddwch chi'n cytuno i gael triniaeth arbennig, does dim rhaid i'r meddyg, y nyrs neu'r deintydd ofyn i'ch rhieni neu eich gofalwyr am ganiatâd hefyd.

**Os ydych chi o dan 16, efallai byddwch chi'n dal i allu rhoi caniatâd ar gyfer gofal iechyd** gan feddyg, nyrs neu ddeintydd, os ydych chi'n deall beth mae'r driniaeth yn ei olygu. Dylai'r meddyg, y nyrs neu'r deintydd siarad â chi ac esbonio beth fydd yn digwydd a sut gallech chi deimlo wedyn. Os byddan nhw'n meddwl eich bod chi'n deall beth fydd yn digwydd, byddwch yn gallu gwneud eich penderfyniad eich hun i gael y driniaeth (rhoi caniatâd). Mae hynny'n golygu y byddwch chi o bosib yn gallu cytuno i gael rhai triniaethau eich hunan, ond nid eraill. Er enghraifft, **os ydych chi'n 14, efallai byddwch chi'n gallu rhoi caniatâd** eich hunan ar gyfer brechiad i'ch amddiffyn yn erbyn llid yr ymennydd (meningitis). Ond gallai'r wybodaeth y mae ei hangen er mwyn cytuno i gael rhywbeth mor ddifrifol â llawdriniaeth ar eich calon fod yn ormod i chi bwyso a mesur ar eich pen eich hun.

Os ydych chi'n methu rhoi caniatâd, dylai eich meddyg, eich nyrs neu eich deintydd siarad â chi am beth sy'n mynd i ddigwydd beth bynnag. Byddan nhw hefyd yn siarad â'ch rhieni neu'r person sy'n gyfrifol am eich gofal am beth fyddai orau i chi.




# BETH AM FY RHIENI NEU FY NGOFALWYR?





Hyd yn oed os ydych chi'n gallu rhoi caniatâd eich hunan, mae'n dal yn **syniad da cynnwys eich rhieni neu eich gofalwyr** yn eich penderfyniad. Os byddan nhw'n gwybod beth sy'n digwydd, byddan nhw'n gallu **eich helpu i ystyried eich penderfyniad** a'ch cefnogi. Ond os nad ydych chi eisiau dweud wrth eich rhieni neu eich gofalwyr am driniaeth neu gyngor rydych chi'n eu derbyn, fydd y meddyg, y nyrs neu'r deintydd ddim yn dweud wrthyn nhw heb eich caniatâd chi, oni bai bod amgylchiadau eithriadol lle mae angen eich amddiffyn chi neu rywun arall rhag niwed difrifol.

## BETH FYDD YN DIGWYDD MEWN ARGYFWNG?

Os byddwch chi'n methu rhoi caniatâd, a does dim amser i'ch rhiant neu'r person sy'n gyfrifol am ofalu amdanoch chi roi caniatâd, **gall y meddyg roi triniaeth i chi beth bynnag.** Dim ond mewn argyfwng y bydd hynny'n digwydd, i achub eich bywyd neu i sicrhau eich bod chi ddim yn mynd i gyflwr gwaeth.



## SUT GALLA I ROI CANIATÂD?

Gallwch chi roi caniatâd trwy ddangos eich bod yn fodlon i rywbeth ddigwydd. Er enghraifft, os bydd meddyg yn gofyn am weld eich braich, gallech chi rolio eich llawes i fyny. Hefyd gallech chi nodio eich pen, dweud yn uchel eich bod chi'n cytuno, neu gallech chi gael cais i lofnodi ffurflen yn dweud eich bod chi'n cytuno.

CYTUNO I rhywbeth ddigwydd



GOFYNNWCH GWESTIYNAU BOB AMSER



## A CHOFIWCH

**Gallwch chi newid eich meddwl am gytuno i gael archwiliad neu driniaeth unrhyw bryd, trwy ddweud wrth y person sy'n gofalu amdanoch chi. Hefyd gallwch chi gymryd faint bynnag o amser mae arnoch chi ei angen i wneud eich penderfyniad. Dylech chi bob amser ofyn cwestiynau os byddwch chi heb ddeall rhywbeth, neu os byddwch chi'n teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnoch chi.**

## ALLA I WRTHOD ARCHWILIAD NEU DRINIAETH?

BETH SYDD ORAU I CHI

Os ydych chi'n 16 neu 17, neu o dan 16 ac mae'r person sy'n gofalu am eich iechyd wedi penderfynu eich bod chi'n deall beth sy'n digwydd, **gallwch chi wrthod rhoi caniatâd ar gyfer archwiliad neu driniaeth.**

Serch hynny, mae yna rai sefyllfaoedd lle gall eich rhieni neu eich gofalwyr neu'r bobl sy'n eich trin ddiystyru'r ffaith eich bod chi wedi gwrthod. Os bydd eich meddyg yn credu bod gwrthod triniaeth yn niweidiol i'ch lles efallai y bydd am siarad â chyfreithiwr ynghylch a ddylai roi'r driniaeth. Fel arfer, fydd hyn ond yn digwydd os byddwch chi'n gwrthod triniaeth ar gyfer cyflwr sy'n bygwth eich bywyd a bod y meddyg yn credu mai rhoi'r driniaeth sydd orau i chi.

Os ydych chi o dan 16 ac mae'r person sy'n gofalu am eich iechyd wedi penderfynu eich bod chi'n methu rhoi caniatâd, gall **eich rhieni neu eich gofalwyr roi caniatâd ar eich rhan**, hyd yn oed os ydych chi eisiau gwrthod triniaeth. Fodd bynnag, bydd eich rhieni neu eich gofalwyr a'r rhai sy'n eich trin yn cael eu hannog i drafod y driniaeth gyda chi ac i geisio dod i gytundeb â chi.






## Beth am fy mhreifatrwydd?

Os ydych chi'n 16 neu 17, neu o dan 16 ac mae eich gweithiwr iechyd wedi penderfynu eich bod chi'n gallu rhoi caniatâd, **dylen nhw gadw eich holl wybodaeth bersonol yn breifat, oni bai eich bod chi'n dweud fel arall.**

Mewn rhai sefyllfaoedd gallai fod angen i'ch meddyg neu eich deintydd **rannu eich gwybodaeth bersonol** gyda'ch rhieni neu eich gofalwyr neu'r person sy'n gyfrifol am eich gofal, er enghraifft, os byddwch chi'n gwrthod triniaeth ar gyfer salwch difrifol iawn neu os ydyn nhw'n pryderu eich bod chi mewn perygl. Os bydd hynny'n digwydd, byddwch chi'n cael gwybod pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu ac ar gyfer beth y bydd yn cael ei defnyddio. Fydd gwybodaeth ddim yn cael ei rhannu heb eich caniatâd ond os byddwch chi neu rywun arall mewn perygl difrifol o gael eich anafu neu eich cam-drin.






## Beth os fydda i ddim yn hapus?

Os byddwch chi ddim yn hapus am eich gofal a'ch triniaeth, gallwch chi ddweud wrth un o'r bobl sy'n gyfrifol am eich gofal iechyd neu ofyn i'ch rhiant neu eich gofalwr wneud hynny i chi. Gallwch hefyd ofyn i rywun sy'n gweithio ym maes gofal iechyd am daflen o'r enw Gweithio i Wella, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth.

DEWCH YMA AM gyngor

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Hefyd gallwch chi gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru i gael cyngor a chymorth

**Comisiynydd Plant Cymru**
**Rhadbost RRGL XLYC BHGC**
**Abertawe SA7 9FS**

Rhadffôn: 0808 801 1000 (9am tan 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)
Tecst: 80800 i anfon tecst aton ni am ddim (dechreuwch eich neges â COM)
**E-bost: cyngor@complantcymru.org.uk**

Twitter: @complantcymru
**Gwefan: www.complantcymru.org.uk**



## I gael gwybodaeth leol cysylltwch â:

## Gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru:

**Adran Ansawdd Gofal Iechyd**
**Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Llywodraeth Cymru**
**Adeilad y Goron**
**Parc Cathays**
**Caerdydd CF10 3NQ**

Ffôn: 029 2082 6842 / 029 2082 3083
**E-bost: consent@wales.gsi.gov.uk**
**Gwefan: www.wales.nhs.uk/consent**




Llywodraeth Cymru
Welsh Government